Hanes holl bobl Cymru
Galw am addysgu hanes pobl Dduon a hanes Cymru.

Asiantaethau yn dal i wrthod talu
Nid yw rhai athrawon cyflenwi yn cael yr isafswm tâl.

Arian i ailadeiladu ar ôl Covid
Cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc.

addysgu yng nghymru

Rhifyn 66
Tymor y gwanwyn 2021

‘Allwn ni ddim gadael i bethau fynd o chwith eto’

RHAID sicrhau na fydd canslo arholiadau’r haf yn arwain at ragor o waith i fyfyrwyr a’u hathrawon, meddai David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru.

Er ei fod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd i ganslo arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, dywedodd fod yn rhaid gofalu am les pawb yn y system.

“Mae’n hanfodol nad yw’r hyn a ddigwyddodd yn yr haf yn digwydd eto. Roedd hwnnw’n gyfnod hynod o anodd i bawb a ddylai fod wedi bod yn sefyll arholiadau,” meddai.

“Rhaid inni sicrhau bod gennym broses asesu gyson ar gyfer pobl ifanc, sy’n golygu bod modd cydnabod eu gallu cyn iddynt gymryd eu camau nesaf. Ond rhaid i hyn beidio â golygu mwy o waith i bawb – yn staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Mae’r system addysg eisoes yn ei chael hi’n anodd ymdopi.”

Wrth gyhoeddi y byddai’r arholiadau’n cael eu canslo, dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y byddai asesiadau a reolir gan athrawon yn eu disodli. Byddai’r rhain yn cynnwys asesiadau “a gaiff eu gosod a’u marcio yn allanol, ond a gaiff eu cynnal gan yr athro yn yr ystafell dosbarth o dan oruchwyliaeth yr athro”.

Dywedodd mai tegwch oedd y prif reswm dros ei phenderfyniad i ganslo’r arholiadau: “Bydd y cyfnod o amser y gall dysgwyr ei dreulio yn yr ysgol neu’r coleg yn amrywio’n fawr iawn ac, yn y sefyllfa hon, mae’n amhosibl gwarantu tegwch i bawb mewn arholiadau.”

Dywedodd David ei bod yn bwysig cael cynllun sy’n ymddiried mewn athrawon i adnabod eu myfyrwyr. “Allwn ni ddim gadael i bethau fynd o chwith eto, ac mae angen inni sicrhau bod y graddau y mae pobl ifanc yn eu cael mor deg â phosibl,” meddai.

■ Mae deiseb sydd wedi’i threfnu gan NEU Cymru, a honno’n galw am degwch i fyfyrwyr sy’n sefyll arholiadau, wedi cael ei llofnodi gan 2,022 o bobl.

Agor grŵp meithrin Ysgol Abersoch fis Chwefror diwethaf LLUN gan Dewi Wyn

MAE cymuned yng Ngwynedd yn brwydro i gadw’i hysgol bentref ar agor wrth i’r cyngor geisio cymryd camau i’w chau. Dim ond deg disgybl sydd yn Ysgol Abersoch ym Mhen Llŷn, ond mae hynny’n golygu bod y plant yn cael addysg o’r radd flaenaf, yn ôl ymgyrchwyr. “Mae’r plant yn cael sylw unigol,” meddai Margot Jones, cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol sy’n arwain y frwydr yn erbyn y bwriad i’w chau. Mae rhieni wedi dechrau deiseb ac apêl cyllido torfol fel rhan o’r ymgyrch i achub yr ysgol.

Mae’r cyngor wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol ar ei gynnig i gau’r ysgol ar 31 Awst eleni – a hynny gan fod nifer y disgyblion wedi gostwng. Ond dywedodd Margot fod yr ysgol eisoes wedi bod yn cymryd camau i sicrhau bod modd cynnal y niferoedd, a hyd yn oed eu cynyddu. Plant hyd at flwyddyn 3 sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, ac awgrymwyd y gallent barhau tan flwyddyn 4. Mae Cylch Meithrin wedi agor yn yr adeilad hefyd.

Mae’r llywodraethwyr hefyd yn pryderu y bydd yn anodd ymgynghori’n iawn yn ystod pandemig y coronafeirws, gan na fydd modd cynnal cyfarfodydd cyhoeddus. “Rydyn ni’n teimlo bod angen rhywfaint o amser ar ôl Covid i’r camau rydyn ni wedi’u cymryd ddwyn ffrwyth,” meddai Margot. Roedd ei hen daid ar fwrdd cyntaf y llywodraethwyr yn 1924.

■ Mae modd llofnodi’r ddeiseb yn **bit.ly/2UZ1y09** a chyfrannu yn **justgiving.com/crowdfunding/ysgolabersoch**

‘Rhaid i hanes siarad â phawb’

MAE’R Gweinidog Addysg wedi rhoi sicrwydd y bydd cwricwlwm newydd Cymru yn adlewyrchu profiadau a hanes y bobl sy’n byw yma.

Roedd Kirsty Williams yn siarad mewn cyfarfod yn y Senedd lle roedd dwy ddeiseb am addysgu hanes yn cael eu trafod.

Roedd un yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru, a’r llall yn dweud y dylai fod yn orfodol dysgu hanes pobl dduon mewn ysgolion.

‘Dealltwriaeth lawn a manwl’

Dywedodd Janet Finch-Saunders, cadeirydd y pwyllgor deisebau, fod y math o hanes sy’n cael sylw yn y naill ddeiseb a’r llall yn rhan yr un mor bwysig â’i gilydd o stori Cymru a’i phobl.

“Rhaid addysgu ein hanes i gyd, yn dda a drwg, a’r hyn mae’n ei olygu i Gymru heddiw, a rhaid i hyn siarad â phawb. Dylai feithrin dealltwriaeth lawn a manwl yn ein pobl ifanc o’r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae honno’n gryn her,” meddai.

Roedd y gwaith o ddatblygu’r cwricwlwm newydd, sydd i’w gyflwyno yn 2022, yn golygu bod hon yn adeg dda i gynnal y drafodaeth yma, ychwanegodd.

Atebodd Ms Williams drwy ddweud ei bod yn hyderus y byddai’r adnoddau a’r canllawiau sy’n cael eu datblygu ar gyfer y cwricwlwm yn galluogi ysgolion i addysgu holl hanes Cymru a’i chymunedau amrywiol “ym mhob maes dysgu”, ac nid mewn gwersi hanes yn unig.

“Yr holl ddiben yw annog dysgwyr i edrych ar themâu drwy’r cwricwlwm cyfan,” meddai.

“Nid yn unig y gellir dysgu hanes amrywiol pobl Cymru ym maes y dyniaethau, ond hefyd mewn ieithoedd, llenyddiaeth a chyfathrebu, ac mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.”

Cyllid i ddarparu’r cwricwlwm newydd

MAE NEU Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd rhoi digon o gyllid a hyfforddiant i sicrhau bod gan weithwyr addysg proffesiynol adnoddau digonol i ddarparu’r cwricwlwm newydd.

Barn yr undeb yw bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm yn 2022 yn uchelgeisiol dros ben, yn enwedig yn sgil pandemig Covid.

Gan gefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu, mae NEU Cymru yn credu ei fod yn “gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sicrhau y gall plant a phobl ifanc ddod yn ddinasyddion yng Nghymru’r dyfodol”.

Dyddiadau dysgu i’ch dyddiadur

MAE dysgu yn ganolog i NEU Cymru, ac mae’r undeb yn ymfalchïo yn yr hyfforddiant rydym yn ei roi i weithwyr addysg proffesiynol, swyddogion lleol a chynrychiolwyr y gweithle. Mae’r undeb yn cynrychioli’r grŵp mwyaf o weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru, ac mae’n credu bod dysgu’n gallu bod yn rhywbeth grymus i bawb. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy’r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i aelodau NEU Cymru.

Yn ystod yr argyfwng iechyd, mae cyrsiau rhithiol dros dro wedi disodli cyrsiau undydd a chyrsiau tridiau’r undeb i gynrychiolwyr newydd a phresennol. A hwythau’n cael eu cynnal ym mhob un o ardaloedd y consortia rhanbarthol, byddant yn cael eu darparu dros gyfnod o chwe wythnos, gyda dwy sesiwn ddwyawr rhwng 4pm a 6pm bob wythnos. I gymryd rhan, cysylltwch â swyddfa NEU Cymru.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn gynrychiolydd gweithle a dilyn un o’n cyrsiau anfon e-bost i **cymru.wales@neu.org.uk**

Mae rhagor o wybodaeth am gyrsiau cenedlaethol yr NEU ar gael yn **neu.org.uk/learning**

Mae cyrsiau hefyd ar gael drwy brosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac mae rhestr wedi’i diweddaru o’r pynciau i’w gweld yn **bit.ly/36PD1jP**, ynghyd â gwybodaeth am sut i gofrestru.

Yn ystod y pandemig, bydd prosiect WULF yn parhau i ddarparu cyrsiau ar-lein i aelodau. Mae’r rhain wedi bod yn hynod o boblogaidd a bydd mwy o gyrsiau’n cael eu trefnu dros y misoedd nesaf er mwyn ateb y galw. Bydd cyrsiau ar-lein y dyfodol yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, lles a chymhwysedd digidol – cadwch olwg ar eich negeseuon e-bost ac ar ein tudalen Facebook.

Os hoffech chi i’r undeb ystyried trefnu cwrs penodol, anfonwch e-bost naill ai at Lisa Williams, **lisa.williams@neu.org.uk** neu at Beth Roberts, **beth.roberts@neu.org.uk**

Rhaid i’r cyrsiau fod yn berthnasol i un o’n pedwar maes blaenoriaeth, sef sgiliau hanfodol; cynnydd a datblygiad gyrfa; iechyd a lles; a hyfforddiant yn y Gymraeg.

Facebook facebook.com/neucymrutraining a Twitter @neucymrutrain

Cyllid WULF i helpu gyda Covid-19

BYDD cyrsiau hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gefnogi plant a theuluoedd sydd wedi teimlo effaith pandemig y coronafeirws, a hynny ar ôl i NEU Cymru wneud cais llwyddiannus am gyllid. Gwnaeth yr undeb gais am gyfran o £250,000 ychwanegol a roddwyd i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) o becyn Ymrwymiad Covid Llywodraeth Cymru.

O ganlyniad, bydd tîm WULF yn gweithio gyda’r sefydliadau canlynol i gynnig cyrsiau yn nhymor y gwanwyn:

- Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (**cpag.org.uk**) a Children North East (**children-ne.org.uk**) a fydd yn trefnu ac yn cynnal chwe sesiwn hyfforddiant yn rhad ac am ddim ar “effaith pandemig Covid-19 ar lefelau tlodi yng Nghymru a sut y gall ysgolion leddfu’r pwysau ar deuluoedd”.
- The Present Courses CIC (**thepresentcourses.org**) a fydd yn trefnu ac yn darparu dau gwrs hyfforddiant ar addysgu ymwybyddiaeth ofalgar i blant rhwng tair a 12 oed.
- Tîm prosiect WULF Unite a fydd yn datblygu ac yn treialu amgylchedd rhith-ddysgu i helpu unigolion gyda’u sgiliau cyflogadwyedd a’u hanghenion hyfforddiant eraill.

Cadwch olwg am negeseuon e-bost gan NEU Cymru am hyfforddiant WULF, a dilynwch ni ar Facebook ac Eventbrite.

Wedi methu rhywbeth?
Darllenwch hen rifynnau o Addysgu yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn **neu.org.uk/educate-wales**

Darlithoedd rhithiol i athrawon dan hyfforddiant

MAE rhaglen o ddarlithoedd buddiol i athrawon dan hyfforddiant ym mhrifysgolion Cymru yn dal i fynd rhagddi ar-lein yn ystod y pandemig. Ymhlith y pynciau mae:

- delio ag ymddygiad amhroffesiynol
- peryglon safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- addysg, y gyfraith, a chi'r athro
- telerau ac amodau gwasanaethu
- gwneud cais am swydd: gwybodaeth hollbwysig
- cyfweliadau: gwybodaeth hollbwysig
- y cyfnod sefydlu: rolau, cyfrifoldebau a chyngor buddiol.

Os hoffech chi drefnu un o'r darlithoedd uchod i chi'ch hun a'ch cyd-athrawon dan hyfforddiant, anfonwch e-bost at Stuart Williams yn swyddfa NEU Cymru yn **cymru.wales@neu.org.uk**

Mae modd i athrawon dan hyfforddiant ymaelodi yn rhad ac am ddim, a gall athrawon newydd gymhwyso wneud hynny am £1 yn unig – ewch i **neu.org.uk/join-now**

Mae NEU Cymru hefyd yn cynnig cyflwyniad i aelodau am y cynllun pensiwn enillion gyrfa cyfartalog. I drefnu'r cyflwyniad hwn i chi neu i'ch cangen, cysylltwch â Stuart.

GALL disgyblion gael blas o fyd natur a'r awyr agored drwy 'wersylloedd gwyllt' sy'n cael eu trefnu gan Coetir Anian ar odre'r mynyddoedd ger Machynlleth, Powys. Cynigir llefydd yn y gwersylloedd i fyfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael addysg, er enghraifft gofalwyr ifanc neu bobl sydd wedi dioddef bwlio. Bydd gweithgareddau fel cerdded afonydd, chwilota am fwyd a choginio dros dân yn rhoi cyfle iddyn nhw ddysgu sgiliau newydd a meithrin hyder. Mae rhaglenni addysg i ysgolion cynradd ar gael hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at **clarissa.richards@coetiranian.org**

- Darllenwch ein herthygl am ddysgu yn yr awyr agored ar dudalennau 26-29 yn Addysgu.

Asiantaethau'n rhoi llai na'r isafswm tâl

MAE rhai o'r asiantaethau sy'n rhan o'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi yn ceisio osgoi talu'r lleiafswm sy'n ofynnol o dan y cytundeb.

Mae nifer o aelodau sy'n athrawon cyflenwi wedi cysylltu â NEU Cymru i gwyno bod asiantaethau'n talu llai nag y dylent.

Cyflwynwyd Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Cyflenwi yng Nghymru ym mis Medi 2019 a rhoddwyd contractau fframwaith i 27 o asiantaethau ar sail ddaearyddol/awdurdodau lleol. Y nod oedd cefnogi athrawon cyflenwi ar y naill law, ac ar y llall sicrhau bod yr holl asiantaethau'n cydymffurfio â safonau ansawdd sylfaenol a rhwymedigaethau diogelu statudol.

Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno isafswm ar gyfer tâl dyddiol athrawon cyflenwi yn unol â'r Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol, a hynny wedi'i seilio ar isafswm y brif raddfa gyflog yng Nghymru – sef £27,018 yn flynyddol neu £138.55 y diwrnod.

Byddai'n well gan yr NEU pe bai ysgolion yn defnyddio cronfeydd cyflenwi awdurdodau lleol, neu'n cyflogi athrawon yn uniongyrchol.

Byddai'n well o hyd gan yr NEU pe bai ysgolion yn defnyddio cronfeydd cyflenwi, a'r rheini'n cael eu trefnu gan awdurdodau lleol, neu be baent yn cyflogi athrawon yn uniongyrchol i sicrhau eu bod yn cael cyflog llawn a bod ganddynt hawliau pensiwn.

Ond os bydd ysgolion yn defnyddio staff asiantaethau, mae'r undeb yn eu hannog i ddefnyddio asiantaethau'r fframwaith, sy'n gorfod bodloni gofynion penodol er mwyn cael contract. Fodd bynnag, mae rhai aelodau'n cwyno nad yw rhai asiantaethau'n cydymffurfio â'r gofynion wrth dalu. Un o'r esboniadau mwyaf cyffredin dros beidio â thalu'r isafswm dyddiol yw nad yw'r ysgol wedi dewis bod yn rhan o'r fframwaith, felly does dim modd cynnig yr isafswm.

Cyngor yr undeb yw bod hynny'n gwbl anghywir – nid yr ysgol sy'n ymrwymo i'r fframwaith, ond yn hytrach yr asiantaeth gyflenwi ei hun.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn awyddus i glywed am unrhyw enghreifftiau o asiantaethau cofrestredig sy'n ceisio osgoi dilyn y rheolau – anfonwch e-bost i **nationalprocurementservices@wales.gsi.gov.uk** neu ffoniwch **0300 790 0170**.

- Mae rhestr o'r cyflenwyr sy'n rhan o'r fframwaith ar gael yn **bit.ly/2HGoTR8**

Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau. Mae ein tîm proffesiynol yma i ddefnyddio'u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion rhanbarthau a changhennau.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle;
- ysgrifennydd eich cangen;
- AdviceLine;
- Swyddfa NEU Cymru.

NEU Cymru

Ty Sinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru: Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru: Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol: Neil Foden, Máiréad Canavan, Hannah O'Neill

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Llywydd: Robin Bevan

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol: Mary Bousted a Kevin Courtney

Cyfieithiad gan Rhys Iorwerth Cyf **rhysiorwerth@hotmail.com**

Dim dirwyon am absenoldeb

MAE Llywodraeth Cymru yn dal i ddilyn polisi 'dim dirwyon' os bydd disgyblion yn absennol yn ystod y pandemig.

Mae'r canllawiau i ysgolion yn dweud y gall fod sawl rheswm pam y byddai dysgwr, rhiant/gofalwr neu aelod o staff yn bryderus am ddychwelyd i'r ysgol, ac mae'n argymell bod ysgolion yn trafod eu pryderon ac yn dod o hyd i ffordd o sicrhau y gall disgyblion barhau i ddysgu.

bit.ly/3qewKqP

Sêl bendith i'r cynigion cyflog

FIS Medi diwethaf, ymatebodd NEU Cymru i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon 2020. Dyfarniad oedd hwn a wnaed ar sail argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Cytunwyd i fwrw ymlaen â'r saith o brif argymhellion y Corff Adolygu, a gall yr undeb nawr gadarnhau'r canlynol:

- mae cyflog cychwynnol athrawon newydd yng Nghymru wedi cynyddu 8.4 y cant i £27,018
- mae athrawon sydd ar y brif raddfa gyflog ar hyn o bryd wedi cael cynnydd o 3.75 y cant
- mae athrawon sydd ar y raddfa gyflog uwch wedi cael cynnydd o 2.75 y cant
- mae graddfa gyflog bum pwynt statudol newydd wedi'i chyflwyno
- mae ystodau cyflog arweinwyr ysgolion wedi cynyddu 2.75 y cant
- mae lwfansau athrawon a phob ystod cyflog arall wedi cynyddu 2.75 y cant.

Mae'r Gweinidog Addysg hefyd:

- wedi cael gwared ar gyflogau sy'n gysylltiedig â pherfformiad
- wedi ailgyflwyno cynnydd ar sail profiad drwy raddfa gyflog bum pwynt newydd.

Prydau ysgol am ddim yng Nghymru

ROEDD NEU Cymru yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y byddai prydau ysgol am ddim yn dal i fod ar gael drwy'r gwyliau am weddill tymor y Senedd hon. Dywedodd David Evans, Ysgrifennydd Cymru: "Ar adegau fel hyn, mae'n hollbwysig bod un peth yn llai i bryderu yn ei gylch, yn enwedig gan ein bod yn gwybod bod Covid-19 wedi taro cymunedau difreintiedig yn wael."

Mae'r cyhoeddiad, a wnaed mewn pryd i ddarparu cyllid dros hanner tymor y gaeaf, wedi'i groesawu gan yr ymgyrchwr tlodi bwyd a'r pêl-droediwr Marcus Rashford. "Mae darpariaeth yn ystod y gwyliau yn hanfodol er mwyn rhoi sefydlogrwydd i aelwydydd pan fydd yr ysgolion yn cau, ac ystyried effeithiau trychinebus Covid-19," meddai.

Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyhoeddi y byddai prydau ysgol ar gael yn ystod y gwyliau tan y Pasg. Llywodraeth Cymru hefyd oedd y gyntaf i roi sicrwydd o gyllid dros wyliau haf 2020.

MAE Hannah O'Neill, ysgrifennydd cangen Blaenau Gwent, wedi'i phenodi yn un o aelodau gweithredol yr NEU ar gyfer Cymru. Mae'n ymuno â Neil Foden a Mairead Canavan a etholwyd yn ystod y cylch ethol diwethaf yn 2019. Mae Hannah yn cymryd lle Lesley Tipping, sydd wedi ymddeol. Hoffai NEU Cymru longyfarch Hannah a diolch hefyd i Lesley am ei holl waith caled fel aelod gweithredol, a dymuno ymddeoliad hir a hapus iddi.

Arian i ailadeiladu ar ôl Covid

MAE NEU Cymru wedi croesawu buddsoddiad mewn pobl ifanc sy'n cael ei gynllunio gan Lywodraeth Cymru.

Ymhlith prif flaenoriaethau y pecyn i ailadeiladu ar ôl Covid-19 yng Nghymru y mae darpariaeth i fyfyrwyr sydd ar 'ei hôl hi', mwy o lefydd mewn addysg bellach, a darparu mwy o ddyfeisiau digidol i helpu myfyrwyr sy'n dysgu ar-lein.

Dywedodd David Evans, Ysgrifennydd Cymru NEU Cymru: "Bydd llefydd ychwanegol mewn colegau addysg bellach yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu parhau â'u dysgu. Ni ddylai fod cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wrth i'r economi wynebu cyfnod anodd."

Dywedodd y byddai'r arian ychwanegol ar gyfer dyfeisiau digidol yn bwysig os byddai angen i ysgolion a cholegau gau eto.